


W 2  
2415

2116

TJ 883 (Sal)



## HANES

### *Yr Hen Wr o'r Coed.*

---

ABERYSTWYTH,

Argraffwyd gan Samuel Williams.

1812.

---

“ LOATH TO DEPART.”

**D**YMA 'Stori wych i'w chofio,  
I'r sawl sydd âg 'wyllys gandde,  
I foliannu Duw yn ffyddlon,  
Mae 'n ddyddanwch mawr i'w galon.

**HEN WR** oedd yn hyw mewn crefydd,  
Ac yn gweddio 'n ddyfal beunydd,  
Yn ei weddi 'r oedd deisyfiad,  
Am gael un rhodd cyn ei ddiweddiad.

**Cael** gweled un o'r gwyrthiau lleia',  
Ai y'ngwlad nêf y bydda 'i drigfa,  
Fel y byddai mwy 'wyllysgar,  
I Dduw tra fyddai ar y ddaear.

Ar foreu tēg yr oedd yn tario,  
 I Lwyn o Goed oedd agos ato ;  
 Y'mrig y pren fe glywai ganu,  
 Lais Aderyn \* i'w lonychu. \* Drexelius.

'Roedd yn hên, fe glywsai lawer  
 O amryw gerdd o dannau croyw-bêr,  
 Ac erioed ni wyddai glywed  
 Beraidd fiwsig cyn felused.

Pan glybu ef mor fwyn a hyny,  
 Nesu wnaeth lle 'r oedd yn canu,  
 Dan y Pren i gael ei wrando,  
 Ac yno bu ne 's tewi o hono.

A phan dawodd, fel na chlywodd,  
 Efe eilwaith a feddyliond  
 Am droi yn ol i fyn'd tuag adre',  
 Yn ŵr hŷ i'r tŷ lle bu e'.

'R hyd y ffordd 'r oedd yn myfyrio  
 Pa hyd y b'asai yno 'n gwrandu ;  
 Dwŷ awr neu dair ef a debyg'sai,  
 Dim o *space* yn hŷy ni 's b'asai.

A phan ddaeth i olwg cartrau,  
 Rhyw ryfeddod fawr a welai,  
 Y tai oedd, a'r cloddiau 'n ddiball,  
 Wedi eu newid mewn modd arall.

Myn'd i'r tŷ dan sŷn feddylion,  
 Pobl ddyeithr ydoedd yno :  
 Nid oedd un dyn a adwaenai,  
 Ni wyddent hwy pwy ydoedd yntau.

Dyma helynt sydd ryfeddol,  
 O Arglwydd Dduw, p'le mae fy mhobol?  
 Heddyw 'n myned o'm tŷ allan,  
 A'r fath gyfnewid yma 'rwan!

Mae 'r un teulu yma 'n tario  
 Er's blynyddoedd, heb newidio:  
 Dyeithr yw'ch rheswm, ni's gŵyr un dyn  
 Am bwy yr ydych yn ymofyn.

D'wedai hên wr llwyd o'r cornel,  
 Gan fy nhâd mi glywais chwedel,  
 A chan ei daid y clywsai yntau,  
 Ac ar ei ol y clywais innau,

Fyn'd o Wr o'r tŷ yma allan,  
 Yr un enw ac o'r un oedran,  
 Ac na welwyd mo hono eilwaith,  
 Nac am dano ddim gwybodaeth.

Erbyn casglu llyfrau, a'u chwilio,  
 Yr oedd blynyddoedd wedi pasio,  
 Dri chant a deg a deugain,  
 Tra bu 'n gwrando ar fwsig llawen.

Dyna helynt wych ryfeddol,  
 Gan un angel o wlad nefol;  
 Pa faint mwy yw clywed miloedd  
 Yn cyd-ganu yn y nefoedd?

Gwybu 'r Hên Wr wedi hyn  
 Mai angel Duw oedd yno 'n canu,  
 Ac a draethodd iddynt hwythau  
 Y gwirionedd fel y b'asai.

Erbyn darfol' iddo dd'wedyd  
 Y modd y ca'dd y rhoddiad hyfryd,  
 Nid oedd ei sylwedd yn ei sylw,  
 Ond un dyrnaid bach o ludw.\*

Ni chlybu clust, ni chanfu llyged,  
 Ni's gŵyr un dyn byw a aned,  
 Faint llawenydd sydd i fynu,  
 Fwy-fwy beunydd heb ddybenu.

Nid oes un dyn byw all wybod,  
 Na darllenwydd, na myfyrdod,  
 Ni fedrodd Paul, nac Awstin hefyd,  
 Mo gyff'lybu'r fath lawen-fryd.

Pwy na charai Grist yn ffyddlon,  
 O bur ewyllys gwaed ei galon,  
 Am gael myn'd i'r fath lawenydd,  
 Ac aros ynddo yn dragywydd!

Dyma 'Stori a ddarllenais,  
 O Lyfr Print Cymraeg † a welais;  
 Ac a ro'is y geiriau hyny  
 Ar lun Cân, i bawb i'w dysgu.

\* Fe ddywedir i'r Hên Wr ddychwelyd i'r tŷ o'r  
 o'r lle dycithr, ac ersyn cael gorwedd ar wely, yr hyn  
 a ganiatawyd iddo; a gwraig y tŷ a aeth iw edrych,  
 gydâ photelaid o ryw ddwfr ysbrydol, yno ni chanfu  
 hi ar y gwely ond ychydig o ludw.

† Sef, Y Drych Cristianogol, &c. 1585.